COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
1.30 p.m., Dydd Iau 24 Medi 2020
Fe'i cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, trwy feddalwedd Microsoft Teams

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Cathy Clark, Gareth Cork, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Guy Wallace Smith, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, Dafydd Rhys (heblaw am un rhan o gofnod 4), Chris Franks (yn llawn o gofnod 6 ymlaen). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni); Siôn Aled Owen (cyfieithydd – cyfieithu dilynol).
Hefyd: Jayne McAleer (tiwtor) – cofnodion 1 a 2 yn unig.
Ymddiheuriadau: Julie Cook, Caroline Davies, Tim Palazon, Sonia Reynolds.

2. Enillydd gwobr Inspire!

Digwyddiad blynyddol yn y calendr addysg bellach ydyw Gwobrau Inspire!, wedi'u cynnal gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru. Yng ngwobrau rhithwir 2020 enillodd dysgwr AOC|ALW, Jamie Evans, y Wobr Iechyd a Lles. Er nad oedd yn gallu ymuno â chyfarfod y Cyngor, disgrifiodd ei diwtor a'i enwebydd, Jayne McAleer, ei hanes ers iddo gofrestru ar un o'i chyrsiau Seicoleg ryw 30 mis ynghynt. Ac yntau wedi cael problemau corfforol a seicolegol pan oedd yn tyfu i fyny, fe wnaeth hyder Jamie ffynnu a daeth yn fynychwr brwd nifer o gyrsiau. Erbyn hyn, roedd yn dilyn cwrs Mynediad yn y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol er mwyn dechrau yn y brifysgol a'i nod oedd gweithio fel Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu yn y dyfodol – dilyniant naturiol, gan ei fod yn barod iawn i helpu ei gyd-fyfyrwyr.

Cafodd llongyfarchiadau eu cyfleu i Jamie, ac i Jayne McAleer fel ysbrydoliaeth iddo. Yn ôl rhai aelodau'r Cyngor, nid oedd ei stori ef yn anghyfarwydd: myfyriwr na roddwyd llawer o obaith iddo yn yr ysgol (weithiau'n gysylltiedig ag afiechyd yn ystod plentyndod) a'i ddoniau ond yn cael eu gwireddu fel oedolyn. Roedd cefnogaeth tiwtor iddo fel hyn i'w edmygu, gan felly osgoi'r potensial am gylch dieflig disgynnol. Roedd ei stori lawn ar gael ar wefan AOC|ALW a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Diolchodd aelodau'r Cyngor i Jayne am ei gwaith a'i chyfraniad at y cyfarfod.

3. Er Cof; Penodiadau Newydd a Swyddi i'w Llenwi

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i aelodau'r Cyngor am farwolaeth dau a chwaraeodd ran bwysig yng ngwaith y Sefydliad. Roedd Gerry Jenson, a fu farw'n gynt yn y mis, wedi bod yn Is-gadeirydd ac yn Gadeirydd Pwyllgor yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ôl gyrfa hir ym maes addysg uwch yng ngogledd Cymru, a chyfrannodd yn sylweddol at barhad llwyddiannus yn dilyn y ddwy broses o uno sefydliadau yn

2014 a 2015. Cynrychiolwyd y Sefydliad yn ei hangladd a byddai gwybodaeth am sut i wneud cyfraniad er cof amdani, pe bai unigolion yn dymuno gwneud hynny, yn cael ei dosbarthu. Roedd Hywel Thomas, cyn Drysorydd Sefydliad Addysg y Gweithwyr De Cymru, ymddiriedolwr y corff hwnnw am 16 blynedd ac un o hoelion wyth cangen y Barri, wedi marw ym mis Mawrth 2020. Roedd ei ferch wedi rhoi gwybod i'r Sefydliad am y newyddion hynny yn ddiweddar: siaradodd Jenni Jones-Annetts am ei ymrwymiad i achos addysg gydol oes.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i gynnig dau benodiad llywodraethu yn dilyn cyfweliadau a gynhaliwyd yn ddiweddar: Dona Lewis yn llywodraethwr penodedig ar gyfer sedd Corff Cyswllt a Phartner; a Judith Evans yn 'llywodraethwr ar ddod' (tra'n disgwyl swydd) ac aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Adnoddau. Cymeradwyodd y Cyngor y ddau benodiad. Roedd hynny'n gadael 3 swydd wag ar gyfer aelodau'r Cyngor - rolau etholedig yn cynrychioli rhanbarthau'r gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain, ac un rôl dysgwr-lywodraethwr.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Gorffennaf 2020 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams, yn gofnod cywir. Roedd diweddariadau i dri mater yn y cofnodion. Yn y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddyfodol canghennau (cofnod 5), roedd copïau o adroddiad archwilio mewnol TIAA ar y berthynas rhwng canghennau a'r Sefydliad canolog wedi'u hanfon at y tri aelod Cyngor oedd yn aelodau o'r grŵp hwnnw. O'r un cofnod, roedd yr arolwg ar amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor wedi'i gwblhau gan 13 o 16 aelod presennol y Cyngor: cafodd gweddill yr aelodau eu cymell i'w ateb, oherwydd byddai data ohono'n cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y Sefydliad ar amrywiaeth ym mis Medi. O ran cofnod 8, darparwyd diweddariad ysgrifenedig am ailstrwythuro'r staff (gadawodd Dafydd Rhys y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon). Roedd un diwygiad i'r cynigion wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori a byddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau yr wythnos ganlynol. Cafodd y sefyllfa bresennol o ran y pum tiwtor a drosglwyddwyd, diswyddiadau gwirfoddol, adleoli posibl a 'chyflogaeth arall addas' ei hesbonio i'r aelodau.

5. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 31 Gorffennaf 2020

Nododd y Cyngor y cofnodion hyn, a gyflwynwyd gan Guy Wallace Smith. Roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar yr archwiliad mewnol blynyddol, gan olygu bod rhywfaint o'i waith y cytunwyd arno ymlaen llaw heb ei orffen eto. Roedd yr adroddiadau hynny a gwblhawyd hyd yn hyn yn darparu sicrwydd cymharol gryf. Roedd cofnod 4 ynghylch llythyr Llywodraeth Cymru am ddata myfyrwyr wedi ysgogi trafodaeth. O ran cofnod 5 ac ymatebion i Covid-19, roedd hyder a chysur staff yn faen prawf pwysig o ran ailagor swyddfeydd yn raddol, gyda Bangor (yr oedd ei hadnewyddu bron a gorffen) a Wrecsam (heb ei hagor gan y landlord, Unite the union) heb agor eto. Roedd gwahaniaethau rhwng rheoliadau cyfnodau clo ardaloedd awdurdodau unedol yn cael eu monitro a'u cyfleu i gydweithwyr; a chynhaliwyd asesiadau iechyd a diogelwch o amodau gweithio gartref aelodau'r staff.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2020, gan gynnwys yr Adroddiad ar y Cwricwlwm

Cafwyd amrywiaeth o ymagweddau newydd at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sesiynau a gynhaliwyd yn yr Ysgol Haf Bach Mihangel a chwrs Iaith Arwyddion Prydeinig trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfod yn gynt yn yr wythnos gyda phennaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gydag addysgu Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn ein prosiect newydd ar gyfer Ceiswyr Lloches a Mudwyr, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref, yn un pwynt dan ystyriaeth. Roedd y ffaith bod AOC|ALW

bellach yn ddarparwr cydnabyddedig cyrsiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), yn sgil gwaith gan ein Rheolwr Datblygu Busnes, yn cynnig cyfleoedd newydd i greu incwm y tu hwnt i'n cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys mewn darpariaeth Gymraeg gyda mentrau cymunedol yr oedd gennym gysylltiadau â nhw eisoes). Ystyriwyd bod y datblygiad hwnnw a pharhau i ehangu darpariaeth ar blatfformau digidol yn ddatblygiadau penigamp i gryfhau cynaliadwyedd y Sefydliad, gan gynnwys trwy fwy o gyrsiau adennill costau yn llawn.

Nodwyd bod Zoom ac Adobe Connect yn blatfformau rhithwir a oedd wedi cael eu defnyddio ar gyfer seminarau a'r Fforwm Rhanbarthol 'cenedlaethol' diweddar, gan ganiatáu am gyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg (yn wahanol i Microsoft Teams). Roedd hyn yn ofyniad statudol ar gyfer ein cyfarfodydd cyhoeddus, ac roedd hi'n wir bod mwy o'n dysgwyr a'n sefydliadau partner wedi arfer gweithredu ar Zoom. Roedd arbrofi'n digwydd, ond nid oedd capasiti (o ran staff nac arian) i gynnig yr holl blatfformau.

Roedd yr ymdrechion i gynnal proffil addysg oedolion yn y gymuned a rhan amser gyda Llywodraeth Cymru yn parhau. O ran y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil drafft, siom oedd gweld bach iawn o sylw i ddysgu oedolion ynddo: **byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i gyfrannu at ymateb y Sefydliad iddo**.

Nid oedd papur cyllid gerbron y Cyngor ar yr achlysur hwn. Oherwydd y darlun oedd yn newid yn gyflym, roedd hi'n debygol y byddai gwarged yn cael ei ddangos bellach ar gyfer blwyddyn 2019-20, ac roedd grantiau ar gyfer cyfarpar TG a chostau glanhau hefyd yn ddarnau newydd cadarnhaol o gyllid ar gyfer 2020-21. Ond nid oeddent yn gwrthbwyso peryglon adfachu cyllid ar gyfer darpariaeth addysgol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd Dafydd Rhys o'r farn bod sefyllfa Covid-19 mewn gwirionedd yn gyfle da i ni ddangos pwysigrwydd agweddau 'meddalach' ar ein gwaith i Lywodraeth Cymru - dysgu heb ei achredu, a chyfraniadau at iechyd, lles ac ymgysylltu â'r gymuned.

Cytunodd y Cyngor i ymestyn cyfnod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli tan fis Rhagfyr 2020, gyda'r Cyngor yn eu hadolygu yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021, a bod y rhain yn dilyn cylch blwyddyn galendr wrth eu gweithredu o hynny ymlaen.

7. Y Gofrestr Risg ar gyfer Medi 2020

Er bod rhai disgrifiadau a chamau lliniaru wedi newid o gymharu â fersiwn mis Gorffennaf, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r sgorau risg. Derbyniwyd y dylai'r pwynt am adfachu ariannol a godwyd yn y cofnod blaenorol gael ei adlewyrchu'n gliriach yn risg 1.2.3. Hefyd, gyda diffygion ariannol mawr ar ddod i'r llywodraethau (ar lefel Cymru a'r DU) byddai effeithiau ariannol dilynol negyddol o ganlyniad i lai o gyllid gan y llywodraeth yn anochel. Ni fyddai hynny'n adlewyrchu camreoli ar ran AOC|ALW: roedd anawsterau cyllid yn hynod o debygol o fod gerbron ar gyfer pob sefydliad addysg bellach.

8. Adroddiad Aelodaeth – Rhestr Sefydliadau Cyswllt a Phartner

Esboniodd Stephen Thomas gynnwys y papur a chynnig bod y Cyngor yn estyn aelodaeth o'r Sefydliad i'r cyrff hynny oedd wedi'u cynnwys yn y rhestri helaeth, yn rhad ac am ddim. Cafwyd trafodaeth ar y rhestri wedi'u hisrannu o gyrff partner (achredu a darparu) a rhwydweithiau yn y ddogfen. Roedd aelodau o'r farn y dylid blaenoriaethu ymhlith y cyrff a restrwyd yno o ran aelodaeth, gan eu bod mor amrywiol ac, weithiau, yn anodd eu categoreiddio. Roedd rhai bylchau hefyd – er enghraifft cyrff y tu allan i Gymru y dylid cynnig eu bod yn aelodau yn yr un modd, fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Lloegr a'r Alban a'r Co-operative College.

Diolchodd y Cyngor i swyddogion am gyflwyno papur diddorol ac roedd yn hapus i gadarnhau aelodaeth barhaus, yn rhad ac am ddim, i'r rheini ar y rhestr gyntaf (yr aelodau presennol). Fodd bynnag, gofynnodd am ailgyflwyno papur yn cynnwys rhestri o dudalennau 4 i 8 wedi'u had-drefnu, gydag esboniadau pellach am fath (addysgol/ddim yn addysgol), maint (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol), a dadansoddiad o'r cysylltiadau a oedd yn bodoli gyda'r cyrff hynny – gan gynnwys cyrff derbyniol o'r tu allan i Gymru; gofynnodd hefyd am eglurhad o'r hyn y byddai cyrff o'r fath yn ei dderbyn am eu haelodaeth.

9. Ffarwelio â Dafydd Rhys

Dyma fyddai cyfarfod olaf y Cyngor i Dafydd Rhys fel staff-lywodraethwr, gan fod ei rôl fel Cydlynydd Cyfrwng Cymraeg ac Ymgysylltu Democrataidd yn y Sefydliad yn dod i ben ar 30 Medi. Diolchodd y Cadeirydd ac eraill iddo am ei gyfraniadau at lywodraethu fel aelod o'r Cyngor ac aelod pwyllgor, ac am ei ymrwymiad i waith Cymraeg y Sefydliad ac i gyfranogiad gweithgar gan aelodau'r sefydliad. Mynegwyd dymuniadau gorau iddo at y dyfodol.

10. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Oherwydd bod o leiaf 4 aelod (gan gynnwys y Cadeirydd) wedi cael anawsterau â dibynadwyedd band eang/Wi-Fi, sain a heriau gweld, a bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn perthyn o hyd i'r dyfodol pell, awgrymwyd y gallai lleoliadau swyddfa AOC|ALW â signalau Rhwydwaith Wi-Fi cryf y Sector Cyhoeddus fod yn opsiwn yn y dyfodol i rai aelodau fynychu cyfarfodydd (yn hytrach nag o'u cartref). Roedd Toni Schiavone o'r farn ei bod yn flaenoriaeth o hyd i sicrhau bod cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

11. Dyddiadau cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2020-21

Disgwyliwyd digwyddiadau rhithwir o hyd, i'w cynnal fel a ganlyn (gan ddechrau am 12.30 pm fel arfer):

2020 - Dydd Mercher 25 Tachwedd (D.S. dechrau am 9.30 a.m.)
2021 - Dydd Llun 25 Ionawr
- Dydd Iau 11 Mawrth
- Dydd Mawrth 30 Mawrth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Mawrth 18 Mai
- Dydd Iau 27 Gorffennaf

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 6	Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2020	Byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i gyfrannu at ymateb y Sefydliad i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil drafft. Cytunodd y Cyngor i ymestyn cyfnod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli tan fis Rhagfyr 2020, gyda'r	KR / CH KR / MB / CH	Tachwedd 2020 Ionawr 2021

		Cyngor yn eu hadolygu yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021, a bod y rhain yn dilyn cylch blwyddyn galendr wrth eu gweithredu o hynny ymlaen.		
Cofnod 8	Adroddiad Aelodaeth – rhestr Sefydliadau Cyswllt a Phartner	Diolchodd y Cyngor i swyddogion am gyflwyno papur diddorol ac roedd yn hapus i gadarnhau aelodaeth barhaus, yn rhad ac am ddim, i'r rheini ar y rhestr gyntaf (yr aelodau presennol). Fodd bynnag, gofynnodd am ailgyflwyno papur yn cynnwys rhestri o dudalennau 4 i 8 wedi'u had-drefnu, gydag esboniadau pellach am fath (addysgol/ddim yn addysgol), maint (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol), a dadansoddiad o'r cysylltiadau a oedd yn bodoli gyda'r cyrff hynny – gan gynnwys cyrff derbyniol o'r tu allan i Gymru; gofynnodd hefyd am eglurhad o'r hyn y byddai cyrff o'r fath yn ei dderbyn am eu haelodaeth.	ST / Michelle Kerswell	Tachwedd 2020